

CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
19 Ebrill 2016, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D ap Rhobert, C McGregor, D Morgan, W Vaughan, G D Williams, W Williams, A Wyn	
YMDDIHEURIADAU: Cyng M Lees, A Williams, D Pritchard, R G Parry (Cyngor Sir), D Rees (Cyngor Sir) , N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng A Wyn. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at Mrs Jones, Tyn Llan, Tregaian (gwraig y ddiweddar L H Jones) i gydymdeimlo ar ei phrofedigaeth
2	DATGAN DIDDORDEB - Dim
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15 Mawrth 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng G D Williams yn cynnig a Cyng W Williams yn eilio.
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Gor-yrru Llangwyllog - Disgwyl am adroddiad gan yr Heddlu
4.2	Gofeb Talwrn - Mae'r clerch yn disgwyl pris am plaque gan Inigo Jones
4.3	Lon yr Ysgol - Darllenwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn dweud nid ydynt yn gweld y lon yn beryg. 'Does neb arall wedi cwyno.
4.4	Hysbysffwrdd Capel Coch - mewn llaw
4.5	Coed - Maes y Coed - Mae'r Clerch yn disgwyl am prisiau
4.6	Damwain sgwar Talwrn - Mae'r Clerch yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.7	Open Reach - Mae'r Clerch yn disgwyl ymateb
4.8	Mynediad Maes y Coed - Mae'r Clerch wedi derbyn pris gan y Cyngor Sir: "I codi ddwy lamp ag cynnwys y gwaith trydannol gan Scottish power mae'r cost yn £2200 , rwyf wedi clymmu cynllun ir llythyr e post. I olau or ffordd fawr I Ty Croes mae angen tri lamp , mi fussau yn codi y trydydd lamp fel cyffraniad y Sir" Penderfynwyd derbyn y pris a symud lamp "A" yn mwy agos i'r priffordd a gosod y trydydd yn y pant ar Lon y Capel wrth ymyl y giat mochyn.
4.9	Bainc, Mynydd Bodafon - mae'r Clerch yn disgwyl pris am y gwaith
4.10	Cyfoeth Naturiol Cymru - 'Roedd y Clerch yn disgwyl siaradwr yn y cyfarfod heno ond nad oedd yn bresennol.
	Llofnod.....Cadeirydd 10.05.16

5	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cynllunio
5.1	23C332 Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a creu mynedfa i gerbydau ar dir ger Bryn Brochan, Talwrn. Sylwadau y Cyngor: Mae'r cynllun allan o fframwaith yr LDP. Mae 4 o dai gwag yn y pentref ar hyn o bryd - oes angen lleol?
5.2	23C332 cais llawn ar gyfer codi 4 annedd ynghyd a creu mynedfa i gerbydau ar dir ger Bryn Brochan, Talwrn - ymgynghoriad diwygiedig. Sylwadau y Cyngor: Mae'r cynllun allan o fframwaith yr LDP. Mae 4 o dai gwag yn y pentref ar hyn o bryd - oes angen lleol?
5.3	23C280D cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi parlwr godro ar dir yn Plas Llanfihangel, Capel Coch - Dim sylwadau
5.4	23C333 cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a creu mynedfa i gerbydau ar dir yn Bryn Triban, Talwrn - Sylwadau y Cyngor: bydd y cynllun yn effeithio ar y dirwedd, hefyd mae'r mynedfa yn beryglus.
5.5	23C315D cais o dan Adran 73 i dynnu amodau 02, 03, 04, 05, 07, 08 (amodau priffyrdd) ynghyd a diwygio amod 11 er mwyn diwygio cynllun y safle o caniatad cynllunio rhif 23C315D (cais llawn i dymchwel yr annedd presennol a codi un newydd yn ei le) ar dir yn Hafan, Mynydd Bodafon. - Dim sylwadau
5.6	23C334 cais llawn ar gyfer codi annedd, creu mynedfa i gerbydau ynghyd a gosod tanc septig ar dir ger Ty Newydd, Maenaddwyn - Dim sylwadau
5.7	23C312F cais llawn i addasu ac ehangu yr annedd bresennol ynghyd a chodi modurdy yn Bryn Gwallen, Talwrn - Dim sylwadau
5.8	Cais llawn i greu mynedfa newydd i geir ar dir ger Ty Croes, Talwrn - Dim sylwadau
6	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
7	MATERION ARIANNOL
	Penderfyniwyd talu y canlynol:
7.1	J D Roberts (archwiliwr) £65.00
8	MATERION ERAILL
8.1	Dyddiad y cyfarfod nesaf. Penderfynwyd symud y cyfarfod nesaf i 10 Mai (oherwydd bod y Clerc ddim ar gael ar 17 Mai)
8.2	Mynwent Llanddyfnan - Dywedodd y Clerc bod y bin gwyrdd wedi cael ei ddwyn unwaith eto a bod ysbwriel wedi cael ei dympio yn y maes parcio. Mae'r materion wedi cael eu pasio i'r Heddlu a'r Cyngor Sir. Bydd y Clerc yn trefnu cael bin newydd, cadwyn a clo.
8.3	Ar ôl darganfod nodwydd yn y maes chwarae (Talwrn), bydd y Clerc yn gofyn i'r Heddlu cadw llygad.
8.4	Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir os ydynt yn bwriadu gosod llinellau melyn ar y ffordd cyn cyrraedd y sgwar yn Nhalwrn (o cyfeiriad Llangefni) oherwydd bod y ffordd yn gul ar ol gosod y palmant newydd
	Llofnod.....Cadeirydd
	19.04.16

